**Cyfarfod Fforwm Hil Cymru**
**11 Chwefror 2016, 10:30am-12.00pm**
**Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol:**

**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

| | |
|---|---|
| Owain Rhys | Cymdeithas Hanes Pobl Dduon |
| Mandy Burrows | Cydgysylltydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol, y Gogledd-ddwyrain |
| Rocio Cifuentes | Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig |
| Aled Edwards | Cynrychiolydd Fforwm Cymunedau Ffydd |
| Uzo Iwobi | Cyngor Hil Cymru |
| Isaac Blake | Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydol Romani |
| Sunil Patel | Show Racism the Red Card |
| Cath Fortune | Unity Project |
| David Phillips | Grŵp Cydraddoldeb Cymru |
| Maria Mesa | Women Connect First |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Jo Glenn | Is-adran Dyfodol Tecach |
| Andrea Adams | Is-adran Dyfodol Tecach |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Samsunear Ali | BAWSO |
| Shereen Williams | Cydgysylltydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol Dwyrain Gwent |
| Shahien Taj | Sefydliad Henna |
| Melineh Essavy | Hope2Shine |
| Daniel Hurford | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Hannah Wharf | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |

**Croeso a chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog bawb i'r cyfarfod. Ymunodd Mandy Burrows â'r cyfarfod drwy gyswllt fideogynadledda o Gyffordd Llandudno.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

2. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2015, a nodwyd yr hyn a wnaed o ran y pwyntiau gweithredu.

**Materion yn Codi**

**i) Cynnig mewn perthynas â'r Ddeddf Hawliau Dynol Brydeinig**

Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm ar y cynnydd a wnaed ers y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin. Ym mis Medi cyfarfu'r Gweinidog â Dominic Raab, Gweinidog Cyfiawnder y DU, a chadarnhaodd y bydd Llywodraeth y DU yn symud ymlaen â'r cynigion ar gyfer y Ddeddf Hawliau Dynol yn yr hydref. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Michael Gove, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Gyfiawnder, na fyddai'r ymgynghoriad yn cael ei lansio tan 2016. Ni wnaed unrhyw gynnydd pellach hyd yn hyn.

Dywedodd y Gweinidog fod angen craffu’n ofalus ar fanylion y cynnig ac y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU ymgynghori â hi ar y materion hyn pan fyddai’r cynigion yn fwy cadarn. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau glas i sicrhau nad yw’r hawliau sydd gan bobl ar hyn o bryd yn cael eu herydu gan gynigion Llywodraeth y DU. Bydd y Gweinidog yn parhau i roi gwybodaeth reolaidd i’r Fforwm ar y mater hwn.

**ii) Nodi troseddau casineb yn system y llysoedd**

Ysgrifennodd y Gweinidog at Karen Bradley AS, Gweinidog y DU dros Atal Camdriniaeth a Chamfanteisio, gan gynnwys Troseddau Casineb, ynghylch nodi troseddau casineb o fewn y gwasanaeth rheoli troseddwyr. Mae swyddogion Swyddfa Gartref y DU yn cwrdd â Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Mark Warrender, y Dirprwy Brif Gwnstabl a Chadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Cymru ar gyfer Troseddau Casineb, yng nghyfarfod y Bwrdd yng Nghaerdydd ar 12 Chwefror i drafod drafftio Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb i fynd i’r afael â’r mater hwn.

**Cam Gweithredu:** Bydd y Gweinidog yn rhoi gwybodaeth i’r Fforwm am unrhyw gynnydd pellach yn y cyfarfod nesaf.

**iii) Prosiectau Troseddau Casineb Grŵp Cydraddoldeb Cymru (David Phillips)**

Rhoddodd David Phillips yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Fforwm am hynt Prosiectau Troseddau Casineb Grŵp Cydraddoldeb Cymru. Dywedodd David fod y prosiectau yn mynd yn dda a bod y Grŵp Cydraddoldeb yn cydweithio. Bydd y cyllid ar gyfer y prosiectau yn dod i ben ar wahanol adegau ac, er mwyn osgoi hyn, mae’r Grŵp wedi gwneud cais i Gronfa’r Loteri Fawr i ymestyn rhai o’r prosiectau i sicrhau eu bod yn dod i ben ar yr un pryd.

Cadarnhaodd Jo Glenn y caiff y penderfyniadau ar y cylch nesaf o gyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant eu gwneud ar ôl etholiadau Llywodraeth Cymru ym mis Mai.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Tasglu Ffoaduriaid Syria**

Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Fforwm ar yr hyn sydd wedi’i wneud hyd yma ledled Cymru mewn ymateb i’r argyfwng ffoaduriaid a thrafodwyd hyd a lled y gwaith a’r heriau sydd o’n blaenau.

Esboniodd y Gweinidog fod Prif Weinidog y DU wedi ymrwymo, ym mis Medi 2015, i dderbyn 20,000 o ffoaduriaid Syria dros gyfnod o 5 mlynedd. Rhoddir Diogelwch Dyngarol i’r ffoaduriaid am bum mlynedd, sy’n golygu y bydd hawl ganddynt i gael gwaith a hawlio budd-daliadau. Bydd Uwch-Gomisiynydd Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig yn gyfrifol am nodi’r rheini sydd fwyaf anghenus, a chynhelir gwiriadau diogelwch ar y rheini yr ystyrir eu hailsefydlu.

Cadarnhaodd y Gweinidog fod Prif Weinidog Cymru a Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ynghylch ymrwymiad Cymru i gymryd rhan lawn yn y gwaith o adsefydlu ffoaduriaid. Mae gan Gymru hanes hir o groesawu

ymfudwyr a ffoaduriaid sy'n wynebu sefyllfaoedd anodd. Er mwyn nodi dechrau cyfraniad Cymru, cynhaliodd Prif Weinidog Cymru Uwchgynhadledd Ffoaduriaid ar 17 Medi. Arweiniodd hyn at gyhoeddiad ar y cyd yn cadarnhau ymrwymiad Awdurdodau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector i helpu i adsefydlu ffoaduriaid Syria.

Ers hyn, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu rhaglen adsefydlu benodol ar gyfer ffoaduriaid Syria o gyllideb cymorth tramor. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wirfoddoli i ymrwymo, ac mae'r rhaglen yn cael ei goruchwylio gan Weinidog a benodwyd ar gyfer Ffoaduriaid Syria, Richard Harrington AS.

Esboniodd y Gweinidog fod yr Uwchgynhadledd wedi cytuno i greu Tasglu Ffoaduriaid Syria, a'i bod hi'n gadeirydd arno. Mae'r Tasglu yn goruchwylio paratoadau ar gyfer y rhaglen adsefydlu yng Nghymru. Cyfarfu am y tro cyntaf ar 19 Tachwedd, ac unwaith eto ar 10 Chwefror, i asesu'r camau a gymerwyd ledled Cymru ac i ymchwilio i feysydd lle mae angen mwy o gymorth.

Cefnogir y Tasglu gan Fwrdd Gweithrediadau, a gadeirir gan Sarah McGill, Cyfarwyddwr Cymunedau, Tai a Gwasanaeth i Gwsmeriaid yng Nghyngor Caerdydd. Gwaith y Bwrdd yw mapio capasiti ac arbenigedd gwasanaethau ledled Cymru. Mae'r broses hon yn helpu i sicrhau bod y gwaith o adsefydlu ffoaduriaid yn realistig ac yn gynaliadwy.

Mae'r Bwrdd Gweithrediadau yn nodi materion y mae angen eu datrys ar lefel genedlaethol ac yn adrodd yn ôl i'r Tasglu yn ei gyfarfodydd chwarterol. Mae hefyd wedi sefydlu Is-grŵp Cyfathrebu, sydd wedi dyfeisio strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod pobl a sefydliadau ledled Cymru yn cael gwybodaeth reolaidd am y broses adsefydlu a sut y gallant gyfrannu.

Esboniodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i sicrhau bod pob sefydliad a all helpu i adsefydlu ffoaduriaid yn effeithiol ac yn amserol yn cael cyfrannu at y strwythur newydd hwn neu'n cael eu cynrychioli drwyddo. Ni chaiff rôl grwpiau ffydd a'r Trydydd Sector ei hanghofio; yn wir, mae ganddynt rôl hollbwysig i'w chwarae. Pennodd Prif Weinidog y DU darged o 1,000 o ffoaduriaid i gyrraedd y DU cyn y Nadolig. Yng Nghymru, mae Ceredigion, Torfaen, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili wedi adsefydlu tua 50 o ffoaduriaid o Syria cyn y Nadolig.

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yn awyddus i adsefydlu ffoaduriaid Syria ac mae'r 18 arall ar wahanol gamau yn eu trafodaethau. Mae gan Awdurdodau Lleol benderfyniadau allweddol i'w gwneud, ac esboniodd y Gweinidog ei bod wedi'i gwneud yn glir bod yn rhaid rhoi digon o amser i bartneriaid fynd drwy eu prosesau lleol i sicrhau bod y gwasanaethau angenrheidiol yn eu lle.

Mae'n bwysig bod y bobl sy'n dod yma yn cael croeso cynnes, ac mae llawer o'r Awdurdodau Lleol heb unrhyw brofiad o adsefydlu ffoaduriaid, sydd wedi dod â'i heriau yn sicr. Fel rhan o Ddatganiad Gofynion Swyddfa Gartref y DU, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol ymrwymo i gyfres o amodau gan y Swyddfa Gartref, sy'n cynnwys darparu cymorth ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

Dywedodd y Gweinidog fod Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig wedi'i ddewis i ddarparu'r gwasanaeth cymorth cyffredinol fel rhan o Raglen Cyngor Abertawe i Adsefydlu Pobl o Syria. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Pecyn Croeso i Gymru i newydd-ddyfodiaid, sy'n cynnwys cyngor ymarferol a gwybodaeth am feysydd fel iechyd, addysg a diogelwch cymunedol. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch hefyd o gael ariannu cynhadledd ym mis Rhagfyr y llynedd, lle daeth Awdurdodau Lleol a phartneriaid at ei gilydd i rannu arferion a materion sy'n codi. Cyhoeddwyd adroddiad ar y gynhadledd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch bod yna ymgysylltu positif yn parhau gyda'r Swyddfa Gartref, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu dulliau cenedlaethol a rhanbarthol o gynnal darpariaeth gyson ledled Cymru. Er enghraifft, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyhoeddi Porth Gwybodaeth, sy'n galluogi awdurdodau lleol i rannu arferion cyfredol.

O ran y camau nesaf, esboniodd y Gweinidog ei bod yn ymwybodol o rai pryderon cymunedol yn ymwneud â diogelwch ac eithafiaeth. Mae'n bwysig bod yna negeseuon sy'n cynnig gwrthnaratif a phrosesau monitro tensiwn mewn ymateb i faterion a nodwyd.

Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ariannu Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2016-17 a chaiff y Cynllun Cyflawni newydd ei gyhoeddi yn fuan. Y gobaith yw y bydd hwn yn dangos sut mae'r rolau hyn yn cael eu defnyddio i helpu i weithredu'r Rhaglen ac yn edrych ar ffyrdd cynaliadwy o weithio gyda chymunedau.

Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn aros i gael mwy o fanylion oddi wrth Lywodraeth y DU yn dilyn ymrwymiad Prif Weinidog y DU i adsefydlu plant ar eu pen eu hunain sy'n ffoaduriaid. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ffyrdd o fynd ati i sicrhau cydlyniant ymhlith ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Ym mis Mawrth, caiff Cynllun Cyflawni Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches ei lansio. Bydd hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gefnogi'r gwaith ledled Cymru.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Mae Cymru wedi adsefydlu niferoedd uchel o bobl sydd wedi cyrraedd yn ddirybudd.
- Mae cyllid yn her i Awdurdodau Lleol Cymru.
- Mae'n rhaid i'r Swyddfa Gartref reoli disgwyliadau ffoaduriaid a adsefydlwyd yn y DU o ran cyflogaeth a iechyd.
- Bydd asesiad o sgiliau ffoaduriaid yn help i baru pobl â chyfleoedd gwaith posibl yng Nghymru. Esboniodd y Gweinidog y bydd yna baru manylach rhwng ffoaduriaid ac Awdurdodau Lleol, gan gynnwys paru sgiliau.

**Cam Gweithredu:** Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Richard Harrington, Gweinidog y DU dros Ffoaduriaid Syria, yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Tasglu ar 10 Chwefror. Yn ei llythyr, bydd y Gweinidog yn pwysleisio cyfraniad Cymru wrth dderbyn newydd-ddyfodiaid yn ddirybudd.

**Eitem 2 ar yr Agenda - Ffoaduriaid a Materion yn ymwneud â Hil (Rocio Cifuentes)**

Dywedodd Rocio fod angen ymchwilio i'r cysylltiadau rhwng materion yn ymwneud â ffoaduriaid ac agweddau ehangach tuag at hil, gan gynnwys problemau hiliaeth, Islamoffobia a chasineb at estroniaid. Mae diffyg gwybodaeth addas ac addysg ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol ynglŷn â'r materion hyn. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn deall beth yw ffoadur, ceisiwr lloches nac ymfudwr, na beth yw'r gwahaniaeth rhwng y tri, ac mae'n bosibl nad oes neb wedi egluro hynny wrthynt erioed. Mae grwpiau eithafol yn manteisio ar y diffyg dealltwriaeth hwn.

Gofynnodd Rocio i Fforwm Hil Cymru ystyried gwell ffyrdd o gydweithio i ddatblygu strategaeth effeithiol o ran cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, gan gynnwys tair elfen wahanol:

- Pobl ifanc - ymwybyddiaeth mewn ysgolion drwy wersi
- Gweithwyr y sector cyhoeddus - yn enwedig gweithwyr rheng flaen, drwy ddatblygu'r gweithlu / hyfforddiant yn y sector cyhoeddus
- Y cyhoedd yn gyffredinol - drwy ymgyrch a strategaeth draddodiadol a hefyd yn y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio digwyddiadau allweddol i gyfleu negeseuon da i'r cyhoedd.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mae sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli yn Fforwm Hil Cymru wedi bod yn gwneud gwaith da yn lleol ac mae angen eu cefnogi nhw.
- Bydd y Fforwm yn cwrdd eto'n anffurfiol i gytuno ar ddulliau gwell o gydweithio er mwyn darparu strategaeth i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd.
- Bydd y Fforwm yn datblygu strategaeth gydlynol ar gyfer paratoi datganiadau amserol i'r wasg a straeon newydd da.
- Cytunodd y Fforwm fod rhai prosiectau'n gorgyffwrdd â'i gilydd yn y Trydydd Sector oherwydd cyfyngiadau ar gyllid rhaglenni.
- Bydd y strategaeth yn helpu'r Trydydd Sector i gefnogi mentrau Llywodraeth Cymru.
- Awgrymodd y Fforwm y dylai Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn y dyfodol sicrhau bod arian wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer ymdrin â materion yn ymwneud â Phobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac i gefnogi gwaith sefydliadau'r Trydydd Sector.

**Camau Gweithredu:**

1. Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Gronfa'r Loteri Fawr yn dilyn trafodaethau ynghylch sefydliadau'r Fforwm Hil yn cydweithio.

2. Swyddogion Dyfodol Tecach i drefnu cyfarfod anffurfiol ar gyfer aelodau'r Fforwm i drafod syniadau ynglŷn â gweithio ar y cyd i gefnogi Cymru decach.

3. Bydd is-grŵp o'r Fforwm yn datblygu 'ffeil ffeithiau' ar gyfer ymdrin â'r cyfryngau.

**Eitem 3 ar yr Agenda – Adolygiad o'r Amcanion Cydraddoldeb (Jo Glenn, Is-adran Dyfodol Tecach)**

Eglurodd Jo y cynnydd a wnaed ers y cyfarfod diwethaf o ran adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb. Dywedodd Jo fod Amcanion Cydraddoldeb diwygiedig Llywodraeth Cymru wedi cael eu datblygu yn dilyn trin a thrafod helaeth gyda'n rhanddeiliaid a grwpiau gwarchodedig. Roedd yr adborth a gawsom o'n hymgynghoriad a chysylltiadau yn gryf o blaid cadw hanfod yr Amcanion Cydraddoldeb presennol.

Gwnaeth Jo gadarnhau y bydd yr Amcanion Cydraddoldeb newydd o 1 i 8 yn parhau i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cydraddoldeb ac i gryfhau'r dystiolaeth sydd ar gael, er mwyn darparu bywyd gwell ar gyfer pob dinesydd. Mae'r amcanion yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau hir-dymor pobl â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru. Datblygwyd y ddau Amcan Cydraddoldeb newydd i adlewyrchu blaenoriaethau ein rhanddeiliaid. Mae gan Lywodraeth Cymru Amcan yn ymwneud â chydlyniant cymunedol sy'n faes hanfodol yn yr hinsawdd gymdeithasol ac economaidd sydd ohoni heddiw. Mae ganddi Amcan hefyd ynglŷn â threchu tlodi ac anghydraddoldeb, sy'n ategu ein dulliau o ymdrin ag anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith grwpiau gwarchodedig.

Dywedodd Jo wrth y Fforwm fod yr wyth Amcan Cydraddoldeb newydd wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet ar 2 Chwefror a byddant yn parhau i yrru newid ac i gadarnhau'r cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf.

Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb newydd yn ategu'r saith her hanfodol a nodwyd yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'A yw Cymru'n Decach?'.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (TSPC) Uzo Iwobi**

Cadarnhaodd Uzo fod y Cyngor Partneriaeth yn canolbwyntio ar strategaeth wirfoddol y cytunwyd arni yng Nghymru ac mai'r problemau allweddol o hyd yw mynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion ac ar y stryd. Dywedodd Uzo fod Cyngor Hil Cymru wedi cynrychioli grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng nghyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth ers dwy flynedd ac y bydd y trefniant yn cael ei adnewyddu eleni. Diolchodd Uzo i'r Gweinidog am wneud materion y Cyngor Partneriaeth yn eitem sefydlog ar Agenda'r Fforwm.

Diolchodd y Fforwm i Uzo am gynrychioli barn Fforwm Hil Cymru ar y Cyngor Partneriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Eitem 5 ar yr Agenda - (Papur 1**) Themâu blaenoriaeth diwygiedig a gynigir ar gyfer 2016-17 gan **y Gweithgor Cynllunio a Datblygu**

Atgoffodd y Gweinidog bawb ei bod wedi gofyn am enwebiadau ar gyfer unigolion i ymuno â'r Grŵp Cynllunio a Datblygu yn y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd y Gweinidog mai aelodau'r Grŵp yw Aled Edwards, David Phillips, Hannah Wharf, Maria Mesa, Rocio Cifuentes, Uzo Iwobi ac Andrea Adams. Cyfarfu'r grŵp ar 12 Ionawr a gwnaeth yr aelodau gytuno i ddiweddaru blaenoriaethau allweddol y Fforwm ar gyfer 2016-17. Mae'r Grŵp yn cynnig bod materion yn ymwneud â hiliaeth yn cael eu trin fel rhan o ddau bennawd newydd ehangach: trechu hiliaeth a throseddau casineb ar sail hil; a hil, ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Gwnaeth y Gweinidog wahodd sylwadau gan y Fforwm am y cynnig hwn, i'w hanfon drwy ebost at yr Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 6 ar yr Agenda - Unrhyw Fater Arall**

**i) Cynhadledd Cydraddoldeb Cymru Gyfan 2016 Cyngor Hil Cymru (Uzo Iwobi)**

Atgoffodd Uzo bawb y bydd Cynhadledd Cymru Gyfan 2016 yn cael ei chynnal ar 21 Mawrth ym Mae Caerdydd, a bydd y siaradwyr yn ymdrin ag ystod eang o faterion. Thema Cynhadledd 2016 yw 'Effaith Troseddau Casineb ar Sail Hil ar Ddioddefwyr.'

**ii) Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Sunil Patel)**

Crybwyllodd Sunil broses ymgynghori a gynhaliwyd gan Gyngor Caerdydd ynglŷn â newid arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg eu hiaith. Roedd Sunil eisiau dwyn y mater at sylw'r Gweinidog oherwydd bod pryderon ymhlith rhai teuluoedd yn yr ardal ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Gwnaeth y Gweinidog gadarnhau ei bod yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Mae hyn yn rhan o'u dyletswyddau cyfreithiol ynglŷn â dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hybu cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da ar sail nodweddion gwarchodedig.

**Cam Gweithredu:** Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Gyngor Caerdydd am eu dyletswydd statudol yn y mater hwn.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei drefnu ar ôl Etholiad Llywodraeth Cymru.

Diolchodd y Fforwm i'r Gweinidog am ei hymroddiad i Fforwm Hil Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.